



Croeso: beginners' Welsh *Pastimes 1*

In this section, you will hear people talking about what they usually do.

First, I asked Helen about her health:

Dw i'n lwcus iawn fel arfer, dw i ddim yn dost yn aml iawn. Mae tipyn bach o annwyd arna i ar hyn o bryd a tipyn bach o wddw tost, ond, fel arfer, dw i ddim yn mynd at y meddyg. Dw i'n cymryd paracetamol a dw i'n yfed llawer o ddŵr neu cadw'n dwym. Y ..., os bydd pen tost gyda fi – dw i yn cael pen tost ambell waith – eto dw i'n cymryd paracetamol a dw i'n cysgu a fel arfer dw i'n iawn wedyn.

I then asked her how much she spends on newspapers and petrol:

Dw i ddim yn prynu papur bob dydd. Ambell waith wi'n prynu'r *Western Mail*, sy'n costio chwe deg pum ceiniog, dw i'n credu. A dw i'n prynu'r *Western Mail* bob dydd Sadwrn, a dw i'n talu wyth deg pum ceiniog. Dw i'n prynu *Golwg* bob wythnos, a mae *Golwg* yn yn costio punt pum deg, a hefyd dw i'n prynu papur dydd Sul, a mae hwnna'n costio punt pum deg, dw i'n credu.

Dw i'n talu llawer o arian am betrol achos dw i'n byw yn y wlad, a dw i'n gyrru'r car i'r gwaith bob dydd. Dw i'n teithio rhyw ugain milltir, felly dw i siŵr o fod yn talu rhywbeth fel tri deg pum punt neu bedwar deg punt yr wythnos ar betrol.

Next, Judith and Martin talk about what they like to do in their spare time:

Judith:

Yn fy amser sbâr, dw i'n hoffi mynd am dro. Dw i ddim yn hoffi gwaith tŷ. Dw i'n hoffi darllen llyfrau. Dw i ddim yn hoffi cadw'n heini. Dw i ddim yn hoffi chwarae sboncen. Yn fy amser sbâr, dw i'n hoffi garddio. Dw i'n hoffi bywta ma's. Dw i ddim yn hoffi tywydd garw. Dw i'n hoffi treulio amser gyda'r teulu. Dw i ddim yn hoffi siopa.

Martin:

Yn fy amser sbâr, rwy'n chwarae golff a cherdded. Rwy'n hoffi chwaraeon, rwy'n hoffi pysgota, rwy'n hoffi bwyd da, rwy'n hoffi mynd i'r sinema ond dim yn rhy aml. Dw i ddim yn hoffi nofio, dw i ddim yn hoffi cyri, dw i ddim yn hoffi hedfan mewn awyren.